CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Trawsgydymffurfio: adnabod a chofrestru moch (SMR 6) (2022)

Trawsgydymffurfio: adnabod a chofrestru moch (SMR 6) (2022).

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 10 Rhagfyr 2021

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Rhagfyr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-adnabod-chofrestru-moch-smr-6-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru#101086)

**Y prif ofynion** (https://www.llyw.cymru#101088)

**Archwiliadau maes** (https://www.llyw.cymru#101090)

**Gwybodaeth pellach** (https://www.llyw.cymru#101092)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-adnabod-chofrestru-moch-smr-6-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cyflwyniad

Amcan y gofynion hyn yw lleihau'r perygl o ledaenu clefydau moch, trwy reoli symudiadau a'u holrhain yn rhwydd. Rhaid i bawb sy'n cadw moch, hyd yn oed moch anwes, gadw at y gofynion hyn.

# Y prif ofynion

## Cofrestru

Bydd gofyn ichi gofrestru'ch manylion a'ch safle gyda swyddfa'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) o fewn mis ar ôl prynu'r moch neu ddechrau cadw moch. Dylech roi gwybod am unrhyw newidiadau o fewn mis ar ôl i'r newid ddigwydd, gan gynnwys rhoi gwybod iddyn nhw eich bod wedi rhoi'r gorau i gadw moch.

## Tagio

Rhaid tagio'r moch cyn iddyn nhw adael y daliad mewn un o ddwy ffordd:

- moch hyd at flwydd oed sy'n symud rhwng daliadau rhaid rhoi naill ai tag clust'UK'cymeradwy neu datŵ (slapfarc ar y glust neu'r ysgwydd) gyda neu heb y llythrennau'UK', neu farc paent/slapfarc dros dro fydd o leia'n para hyd y daith. Ni chewch roi marc dros dro i symud mochyn i farchnad, lladd-dy neu sioe neu ei werthu i gymuned arall
- moch blwydd oed neu fwy sy'n symud i/o farchnad neu ladd-dy – rhaid rhoi tag clust'UK'cymeradwy neu datŵ (slapfarc ar glust neu ysgwydd) gyda neu heb y llythrennau'UK'
- ar foch y bwriedir eu hallforio bydd angen tag clust â'r rhagddodiad 'UK',

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-adnabod-chofrestru-moch-smr-6-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

marc y cenfaint, rhif yr anifail a'r ôlddodiad 'GB' arno NEU datŵ â'r rhagddodiad 'UK', marc y cenfaint, rhif yr anifail a'r ôlddodiad 'GB' arno.

Bydd y rheolau adnabod wedi'u torri os:

- caiff y marciau adnabod ar y mochyn eu newid, eu dileu neu eu cyfnewid heb ganiatâd priodol
- os caiff cais gan awdurdod i roi marc adnabod newydd erbyn amser penodol ei anwybyddu

## Cadw cofnodion

Mae angen cofnodi'r manylion canlynol ar gofnod y fferm:

- enw a chyfeiriad y person sy'n cadw'r cofnod
- rhaid cadw cofnodion pob daliad moch yn gyfoes a'u cadw am o leiaf 3 blynedd ar ôl i chi roi'r gorau i gadw moch
- rhaid cofnodi symudiadau moch i/o'r fferm o fewn 36 awr ar ôl y symudiad. Dylai gynnwys y dyddiad, nifer y moch, o ble ddaeth y moch neu i ble mae'r moch yn mynd, marciau adnabod a rhifau lot (moch sy'n dod o farchnad)
- rhaid cofnodi uchafswm y moch sydd ar y daliad o leiaf unwaith bob blwyddyn
- nodwch bob marwolaeth a sut rydych wedi cael gwared ar y carcas
- rhaid bod y cofnodion hyn ar gael i archwilydd sy'n gofyn amdanynt eu gweld
- cewch gadw'r cofnodion yn electronig

### Dogfennau symud

- rhowch wybod i'r gwasanaeth eAML2 (ar-lein neu swyddfa) cyn symud moch o'ch daliad. Dylech ddarparu'r holl wybodaeth y byddech wedi gorfod ei darparu cyn eu symud gan gynnwys marciau adnabod

Cadwch gopi o'r dogfennau symud a phrynu am o leiaf chwe mis.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-adnabod-chofrestru-moch-smr-6-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Archwiliadau maes

Gofalwch fod:

- y cofnodion ar gael ar gyfer eu harchwilio
- sampl o’r moch yn gallu cael eu cyflwyno yn ddiogel ar gyfer archwiliad o’u tagiau adnabod
- y dogfennau symud ar gael

## Gwybodaeth pellach

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Gwasanaeth Biwro eAML2
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

neu gweler y daflen **Trawsgydymffurfio: cysylltiadau defnyddiol (2025)** (https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-cysylltiadau-defnyddiol-2025).

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-adnabod-chofrestru-moch-smr-6-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).